



Canllawiau i Ymgeiswyr: Busnesau Lleol

Gall y Gronfa Gymunedol gefnogi busnesau bach lleol masnachol newydd a rhai sy'n datblygu - gan helpu'r economi leol, hybu gwariant a chefnogi datblygu sgiliau a swyddi. Mae Prosbectws y Gronfa yn amlygu'r blaenoriaethau:

- Buddsoddi yn y sector manwerthu – strydoedd deniadol wedi'u cadw'n dda
- Buddsoddi mewn seilwaith twristiaeth a hamdden
- Cymorth cyflogaeth a hyfforddiant
- Buddsoddi mewn busnesau newydd
- Datblygu cadwyni cyflenwi lleol
- Busnesau ac entrepreneuriaid yn gwneud gwell defnydd o'r rhyngwyd
- Datblygu cymunedau mwy mentrus ac entrepreneuriaid

Busnesau newydd – gall y rhain amrywio o'r rhai sy'n cychwyn gydag amlinelliad o syniad da i'r rhai sydd wedi bod wrthi ers rhai misoedd. *Cysylltwch â ni i gael sgwrs anffurfiol gyinnar am eich cynlluniau* – rydym yn croesawu ac yn gwerthfawrogi hyn yn fawr. Mae'r mathau o ynholiadau a allai fod gennym yn cynnwys:

- ✓ a ydych chi'n bwriadu buddsoddi, neu a ydych eisoes wedi buddsoddi yn y busnes eich hun?
- ✓ a oes gennych gynllun busnes ar waith ynghyd â rhagolygon llif arian? Mae templedi ar gael ar wefan Busnes Cymru, ac ar ein gwefan ni yma.

Gallwch gael hyd i dempled cynllun busnes sylfaenol ar ein gwefan, sy'n rhoi syniad am y manylion a'r wybodaeth yr ydym yn chwilio amdanynt

- ✓ a ydych yn cynnig gwasanaeth neu gynnyrch nad yw ar gael ar hyn o bryd yn yr ardal, ac a ydych wedi cynnal dadansoddiad o'r farchad/y gystadleuaeth?
- ✓ a fyddwch yn darparu cyflogaeth a hyfforddiant lleol?
- ✓ a allwch ddangos y bydd y busnes yn dod â buddiannau economaidd i ardal y Gronfa?

Gallai busnesau sefydledig hefyd fod yn gymwys i gael cymorth. Unwaith eto, dylai fod ymgeiswyr yn gallu darparu tystiolaeth fel arfer:

- ✓ bod gwasanaethau neu weithgareddau newydd arfaethedig yn cael eu cefnogi gyda gynlluniau busnes a rhagolygon llif arian, sy'n dangos yr effaith gadarnhaol a ragwelir – ar gyfer y busnes ei hun a'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu
- ✓ eu bod nhw eu hunain wedi buddsoddi yn y busnes
- ✓ bod potensial i greu swyddi (wedi'i gefnogi gan ddisgrifiadau swyddi, dyddiadau cychwyn a ragwelwir ac ati) a datblygu sgiliau

Cyfrifon Banc – dylai fod gan fusnesau gyfrifon banc penodol yn enw'r busnes.

Grantiau Ad-daladwy

Gallm ddewis cynnig grantiau ad-daladwy (yn hytrach na grantiau nad ydynt yn rhai ad-daladwy syml) lle y bo'n briodol.

Mae cymorth ar gael gan:

- **Busnes Cymru**: gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd i gefnogi busnesau newydd a datblygu busnesau
- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf: Rhaglen Cymorth Menter** – rhaglen grant hyblyg i ddarparu cymorth i fentrau newydd neu bresennol preifat a chymdeithasol, sydd wedi eu lleoli, neu sy'n bwriadu lleoli ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.
- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf – Dechrau Busnes**
- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot – Cefnogi Busnesau / Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot – Dechrau Busnes**

DS: nid yw cydymffurfio â'r nodyn canllaw hwn yn gwarantu y bydd y cais yn llwyddiannus – arwydd ydyw yn unig o rhai elfennau o'n proses asesu a'n meini prawf.